



## Nodiadau Edrychiad Deheuol:

1. Glanhau y gwaith cerrig i waelod y plinth gyda brwsh caled a dŵr.
2. Ail-bwyntio ardaloedd o fortar caled neu goll, ac ardaloedd o fortar gyda sment wedi caledu, gyda mortar mortar calch medal cymysgedd boeth, gyda llwch cerrig wedi'i falu i gyd-fynd o hyd efo lliw y gwaith cerrig llwyd.
3. Trwsio y menolyn i ailsefydlu blaen y cafn, gyda roden dur gwrthstaen gyda resin a llwch cerrig.
4. Rhoi côth lloches Keim mewn lliw i ben y ddraig i gyd-fynd efo'r gwreiddiol. Tynnu allan ardaloedd o bwyntio sment gormodol i dop a Sylfaen y ddraig.
5. Tynnu ffwrdd holl fwsog blewog sydd yn cadw dŵr hyd at dop y cill. Dim angen brwsio ffwrdd unrhyw genau (lichens).
6. Tynnu allan unrhyw lystyfiant o unrhyw gymalau ac ail-bwyntio (fel Eitem 2)
7. Cario allan atgyweiriadau mortar plastig i sefydlu llwybr dŵr ffo i silffoedd. Angen gwaith pinio micro i'r gwaith cerrig mewn ardaloedd o'r edrychiad Deheuol, mewn ardaloedd o'r corneli. Dim angen ail-sefydlu proffil y siliau i'r gwaelod
8. Mewnlenwi craciau gyda mortar a llwch cerrig, atgyweiriadau mortar plastig a rhoi côth lloches Keim i gryfhau yr arwyneb a gwella hirhoedledd. Efallai bydd angen rywfaint o binio micro i unrhyw arwynebau rhydd, neu fewnolion.
9. Brwsio ffwrdd unrhyw arwyneb cerrig yn delamineiddio a rhoi côth lloches Keim i gyd-fynd efo lliw gwaith cerrig yr holl bediment i'w ddiogelu felly ei fod yn darllen fel un panel.
10. Ail-sefydlu top y finial ar y gornel de-ddwyreiniol (yn seiliedig ar y proffil a gymerir o'r gornel de-Orllewinol). Trwsio gyda roden dur gwrthstaen a resin, a pwyntio fyny gyda mortar calch wedi ei gymysgu gyda llwch cerrig.
11. Brwsio lawr yr huddygl du i dynnu y crameniad caled. Defnyddio brwsh caled (treialu i gychwyn). Fe allai fod yn angenrheidiol i ddefnyddio poultice, neu lanhau laser os nad yn bosib. Caniatau ar gyfer treialu dulliau glanhau.
12. Ail-sefydlu cill ar gyfer dŵr ffo gyda atgyweiriadau mortar plastig. Rhoi côth lloches Keim i arwynebau sydd wedi gwisgo
13. I dop y finial cylchol, caniatau ar gyfer cysylltiadau ceramig neu binio micro a caniatau ar gyfer rhai atgyweiriadau mortar plastig / cryfhau y gwaith cerrig. Bydd hwn angen ei lanhau o huddygl (mwy na thebyg bydd angen glanhau laser gan fod y gwaith cerrig yn frau yma).
14. I'r proffil o Joseph Peers, gwneud glanhau laser i'r ardaloedd o huddygl du yn crynhoi yn unig ac yna rhoi côth lloches (1 gôt?) o gôt lloches Keim mewn lliw i gyd-fynd efo'r tywodfaen coch.
15. I ardaloedd o lythrennau, cryfhau unrhyw lythrennau a gwaith cerrig yn delamineiddio gyda atgyweiriadau mortar plastig a chwistrellu tu ôl y llythrennau. Os yw'r arwyneb tu ôl iddo yn wag, felly o bosib bydd y garreg angen ei disodli neu ailwynebu gyda templad wedi ei gymryd o'r gwreiddiol i gael un arall unfath.
16. Ail-tipio y finial top metel gyda roden dur gwrthstaen os oes angen yn dilyn adolygiad agosach (cymryd yn ganiataol ei fod o bosib yn fferrus). Glanhau y gwaith haearn a atgyweirio unrhyw gymalau fferrus (cadarnhau pa fetel yw hwn i arwain atgyweiriadau, ddim yn edrych fel haearn gyr gan fod y dimensiynau yn rhy amlwg – a yw yn gopr n-e-u efydd?).
17. Ail-sicrhau cerrig rhydd gyda mortar ac ail-bwyntio'n llawn
18. Caniatau cyllid wrth gefn ar gyfer creu sedd bren newydd
19. Caniatau cyllid wrth gefn ar gyfer atgyweirio'r cloc ar hyn o bryd.

**Cyfnod 01 - Agwedd tuag at Atgyweiriadau (Wedi ru rhoi ar gyfer Sylwadau'r Pwyllgor). Edrychiad Deheuol**  
Mater: A (FMR) ar 21.07.21 ar gyfer Cyfarfod/Cymeradwyaeth Aelodau B (FMR) ar 26.08.21